


Wrth iddynt ddod yn fwy medrus

Creaduriaid Craff

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Gwisgo bibiau 'ymosodwr' ac 'amddiffynnwr'
- Anfon a chael gwrthrych fel grŵp o 3 'ymosodwr' yn y 'parth cadw'. Dylai'r plentyn arall chwarae rôl yr 'amddiffynnwr' – 3 yn erbyn 1. Dylai'r 'ymosodwyr' fynd â'r bêl i mewn i'r 'parth sgorio' ac anelu at y gôl. Dylent newid yr amddiffynnwr ar ôl 3 thro. Dylai pob plentyn roi cynnig ar amddiffyn. Ym mhob 'gardd' dylai'r plant benderfynu ar eu rheolau eu hunain, e.e. a all yr ymosodwyr symud gyda'r bêl? A all yr amddiffynnwr daclo? Pryd bydd yr ymosodwyr yn symud i mewn i'r 'parth sgorio'? Beth all yr amddiffynnwr ei wneud yn y 'parth sgorio'? ac ati
- Dod yn rhydd os ydynt yn 'ymosodwyr' drwy chwilio am le gwag a symud iddo, a cheisio cadw'r amddiffynwyr allan o'u 'swigod'
- Marcio'r ymosodwyr os ydynt yn amddiffynwyr, gan gyfyngu ar y lle sydd ar gael i'r ymosodwyr drwy fynd i mewn i'w 'swigod'
- Archwilio gwahanol ffyrdd o anfon a chael pêl/gwrthrych a theithio gyda hi/gydag ef, e.e. driblo, guthio, cicio, ac ati
- Yn lle sgorio drwy daro targed, dylent gwblhau sgîl, e.e. bounsio pêl ag un llaw, dal y bêl â dwy law ar linell, neu mewn ardal benodol
- Cofnodi eu hymdrechion, gan ddefnyddio system sgorio syml



Cyfleoedd i:

- weithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer
- dangos ymwybyddiaeth gynyddol o bellter oddi wrth eraill
- bounsio'r bêl ag un llaw a'i dal gan ddefnyddio dwy law
- trafod beth maen nhw ac eraill wedi'i wneud, a chynnig awgrymiadau syml ynghylch gwella perfformiad

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi', a'u bod yn deall y rheolau ar gyfer casglu peli sy'n mynd i mewn i 'erddi' eraill

Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Bagiau ffa, teganau meddal
- Amrywiaeth eang o beli, gan gynnwys peli cadw'n heini
- Amrywiaeth o fatiau/ffyn
- Coeïau
- Balŵns
- Cylchoedd
- Targedau/goliau bach, blychau bach, wicedi, sgîlts, ac ati
- Bibiau creaduriaid estron – yr ymosodwyr mewn un lliw a'r amddiffynwyr mewn lliw arall
- 'Gardd' wedi'i rhannu'n ddau hanner – 'parth cadw' a 'parth sgorio'
- Plant mewn grwpiau o 4: 3 ymosodwr ac 1 amddiffynnwr

Cwestiynau

- Pa reolau rydych chi wedi eu llunio ar gyfer yr amddiffynnwr?
- A yw eich rheolau'n gweithio? A yw'r gêm yn deg? A yw'r amddiffynnwr yn medru sgorio pwyntiau? A helpodd pawb i sgorio gôl?
- Sut rydych chi'n teimlo fel yr amddiffynnwr?
- Pa reolau rydych chi wedi eu llunio ynghylch diogelwch?
- Pwy oedd yr amddiffynnwr gorau? Beth roedd y plentyn hwnnw'n ei wneud i fod mor llwyddiannus?
- Sut gall yr ymosodwyr/amddiffynwyr sgorio mwy o bwntiau?

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Anfon, cael, cadw, teithio gyda, meddiant
- Ymosod, amddiffyn, ymosodwr, amddiffynnwr, taclo, ochrgamu, ymwybyddiaeth ofodol
- Targed, taro, methu, gôl, sgôr, pwyntiau, anelu, cywirdeb

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn gweithio'n ddiogel gydag eraill wrth ddefnyddio offer?
- Yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o bellter oddi wrth eraill?
- Yn bounsio'r bêl ag un llaw ac yn ei dal gan ddefnyddio dwy law?
- Yn trafod beth mae ef ac eraill wedi'i wneud, ac yn cynnig awgrymiadau syml ynghylch gwella perfformiad?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- ymarfer pob agwedd cyn chwarae'r gêm – cyfeiriwch at y Cardiau Sgiliau Technegol
- trafod y rheolau y mae am eu dilyn
- ymarfer anfon, cael a sgorio heb amddiffynnwr
- chwarae gyda mwy o ymosodwyr
- gweithio mewn 'gardd' fawr i ddechrau

Anogwch y plentyn i:

- ddatblygu a dilyn rheolau mwy cymhleth
- chwarae mewn 'gardd' sy'n llai o faint
- chwarae 2 yn erbyn 1
- chwarae rôl yr hyfforddwr, a gwneud awgrymiadau ynghylch gwella
- chwarae rôl y dyfarnwr, a sicrhau bod pawb yn glynu wrth y rheolau
- chwarae rôl y sgoriwr, gan gadw'r sgôr a chofnodi a chyfrifo'r canlyniadau

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llafaredd – mabwysiadu rôl, gan ddefnyddio geiriau allweddol sy'n briodol i'r rôl
- Datblygiad Mathemategol: creu ardal chwarae – gan ddefnyddio offer mesur a gwybodaeth am siapiau 2D, ac ati